# HANES DYNEIDDIAETH YNG NGHYMRU

Mae'r gair 'dyneiddiwr' yn disgrifio person digrefydd sy'n credu ei bod yn bosib byw bywyd da a hapus heb grefydd. Rydym ond wedi bod yn galw'r fath bobl yn 'ddyneiddwyr' ers rhyw gan mlynedd, ond bu pobl yn meddwl a gweithredu mewn ffyrdd y byddem yn eu disgrifio fel dyneiddiol ers miloedd o flynyddoedd.



Millicent Mackenzie (1863–1942). Dyneiddwraig a ymgyrchodd dros bleidleisiau i fenywod.

Edrychodd y bobl hyn ar beth gallent ei weld a'i brofi i wneud synnwyr o'r byd. Meddyliasant am ffyrdd i fyw yn dda gyda phobl eraill a sut i fod yn hapus. Buont yn canolbwyntio ar beth gellid ei wneud tra roeddent yn byw ar y ddaear, yn hytrach na chredu mewn bywyd arall ar ôl iddynt farw. Mae llawer o ddyneiddwyr heddiw yn eu gweld yn rhan o'r traddodiad dyneiddiol.

## CYMRU CYN CRISTNOGAETH

Cyn i Gristnogaeth gyrraedd yn ystod y ganrif gyntaf OC, roedd Cymru yn gartref i lawer o wahanol gredoau crefyddol. Gallwn weld tystiolaeth ohonynt heddiw, er enghraifft mewn adeileddau a chylchoedd carreg ac ni allwn ond ddamcaniaethu am eu hystyron.


Pan oresgynnwyd Prydain gan y Rhufeiniaid yn 43 OC, fe gyfunon nhw eu duwiau hwythau gyda'r rhai brodorol Prydeinig. Ond erbyn diwedd y 4edd ganrif, roedd Cristnogaeth wedi datblygu'n grefydd swyddogol yr Ymherodraeth Rhufeinig. Pan gwympodd yr Ymherodraeth Rhufeinig, daeth yr Oesoedd Tywyll i fodolaeth.

Am sawl canrif o flynyddoedd, yn ystod beth sy'n cael eu hadnabod fel yr Oesoedd Canol neu'r Oesoedd Tywyll, roedd hi'n beryglus iawn i leisio syniadau dyneiddiol, oherwydd roedd beirniadu'r Eglwys neu ddweud nad oeddech yn credu yn Nuw yn erbyn y gyfraith. Oherwydd hyn, er efallai y byddai pobl yn credu mewn syniadau dyneiddiol – ac yn byw bywydau dyneiddiol – does dim llawer o dystiolaeth gennym am hynny.

David Williams gan John Thornthwaite © National Portrait Gallery, Llundain. CC BY-NC-ND 3.0

### DAVID WILLIAMS

(1738–1816)



Ganwyd David Williams ger Caerffili; roedd e'n athronydd ac athro ysgol. Roedd e'n ddëist: rhywun sy'n credu efallai bod rhyw dduw wedi creu'r byd, ond sy'n gwrthod yr honiadau mewn testunau crefyddol fod y math yna o dduw yn cael unrhyw effaith neu ddylanwad ar ein bywydau. Roedd hyn yn cael ei adnabod hefyd fel 'crefydd natur' am iddo ganolbwyntio ar beth y gellid ei weld neu ei brofi yn y byd naturiol. Credai David Williams y gellid penderfynu ar beth oedd yn iawn i bobl drwy ddefnyddio rheswm a charedigrwydd dynol, ac y dylai pawb fod yn rhydd i benderfynu drostynt eu hunain beth i'w gredu.

Roedd y syniadau hyn wedi eu dylanwadu gan yr Ymoleuo, cyfnod hanesyddol osododd rheswm a photensial wrth galon pethau.

 © HUMANISTS UK 2022

## YR OES RHESWM

Canolbwyntiodd Yr Oes Ymoleuo (sydd weithiau'n cael ei alw yn Yr Oes Rheswm) ar ddefnyddio ymresymiad dynol i ennill gwybodaeth a gwella cymdeithas. Lledaenodd syniadau meddylwyr y'u ganwyd yng Nghymru, fel Dr Richard Price a David Williams, ac roeddynt yn bwysig o ran agor meddyliau pobl i gwestiynu sut y dylid trefnu cymdeithas, a beth y dylent ei gredu.

### ROBERT OWEN
(1771–1858)



Robert Owen gan William Henry Brooke olew ar gynfas, 1834
© National Portrait Gallery, Llundain. CC BY-NC-ND 3.0

Wedi ei eni yn Y Drenewydd, perchennog melin oedd Robert Owen. Daeth i gredu nad oedd pobl wedi eu geni yn 'dda' neu yn 'ddrwg', ond eu bod wedi eu ffurfio gan y cyfleoedd ddaeth i'w rhan a'r pethau ddigwyddodd iddynt. Arweiniodd hyn ato'n cynnig ffyrdd newydd o drefnu cymdeithas, yn seiliedig ar addysg, cydweithredu a chymuned. Dywedodd fod hyn wedi ei lunio i greu 'cyn lleied â phosib o ddioddefaint a'r mwyaf posib o hapusrwydd'. Canolbwyntiodd ei athroniaeth ar ffyrdd ymarferol o gynyddu lles a hapusrwydd pawb. Roedd syniadau Robert Owen yn boblogaidd iawn yn yr 1830au a'r 1840au, gan ddylanwadu ar filoedd o bobl eraill o gwmpas y byd.

## Y 19EG GANRIF

Yna daeth y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, cyfnod o newid aruthrol a darganfyddiadau mawrion. Yng Nghymru gwelwyd mudiadau fel Siartiaeth, Oweniaeth a'r dosbarth gweithiol yn ymgyrchu dros fwy o hawliau a gwell ansawdd bywyd. Roedd Siartwyr, fel Zephaniah Williams o Sir Fynwy, am weld pob dyn – nid dim ond tirfeddianwyr - yn cael yr hawl i bleidleisio. Roedd yr Oweniaid am weld cymdeithas yn cael ei had-drefnu i'w gwneud yn fwy cyfartal i bawb. Roedd llawer o'r bobl oedd yn ymwneud â'r mudiadau hyn yn rhydd-feddylwyr. Rhywun sy'n meddwl dros ei hunan yw rhydd-feddyliwr, yn hytrach na derbyn yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt, yn arbennig pan fod hi'n dod at athrawiaethau crefyddol. Heddiw, mae llawer o'r syniadau sy'n cael eu harddel gan rhydd-feddylwyr yn rhai y byddem yn eu galw'n ddyneiddiol.

Helpodd deallusrwydd gwyddonol newydd (fel damcaniaeth Charles Darwin am esblygiad) i roi esboniadau am y byd yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth.



Alfred Russel Wallace c. 1899

Datblygodd y Cymro, Alfred Russel Wallace (1823-1913) ddamcaniaeth ar esblygiad ar yr un pryd â Charles Darwin, ac fe gyhoeddwyd eu gweithiau ar y cyd. Newidiodd y syniadau hyn y ffordd y deallai pobl ddechreuadau bodau dynol, i arwain at lawer o bobl yn cwestiynu eu credoau crefyddol.

### MILLICENT MACKENZIE
(1863–1942)



Ganwyd Millicent Mackenzie ym Mryste, ond yng Nghymru yn arbennig y gwnaeth ei marc. Daeth hi'n Athro benywaidd cyntaf Cymru (Athro addysg yn beth sydd nawr yn Brifysgol Caerdydd)), a hithau hefyd oedd y fenyw gyntaf i sefyll mewn etholiad Seneddol yng Nghymru. Credai Millicent y dylai menywod feddu ar yr un hawliau â dynion, a dylent ddefnyddio'r hawliau hyn i helpu pawb. Gwnaeth hyn yn ystod ei bywyd ei hunan drwy ei gwaith mewn addysg a gwleidyddiaeth, a thrwy ei hymwneud â'r Union of Ethical Societies/ Undeb Cymdeithasau Moesegol (erbyn hyn yn Humanists UK/Dyneiddwyr Y DU). Daeth yn Is-Lywydd yr Undeb, a safai dros y gred ddyneiddiol y gall pobl fod yn dda heb yr angen am grefydd neu syniadau goruwchnaturiol.

 © HUMANISTS UK 2022

# DYNEIDDIAETH FODERN

Tua diwedd y 19eg ganrif, dechreuodd grwpiau o'r enw cymdeithasau moesegol ffurfio yn y DU. Byddai llawer yn ddiweddarach yn eu hailenwi eu hunain yn gyrff dyneiddiol. Cawsant eu dylanwadu gan ddiwygiwr cymdeithasol o America o'r enw Felix Adler, a oedd wedi cychwyn cymdeithas yn Efrog Newydd gyda'r arwyddair 'gweithred nid credo', yn golygu nad oedd rhaid i chi fod yn grefyddol i wneud daioni yn y byd. Gobeithiai uno pobl o bob credo gyda'i gilydd i fyw bywydau da, a gweithio dros newid. Roedd yna nifer o Gymdeithasau Moesegol (a grwpiau dyneiddiol yn ddiweddarach) yng Nghymru.




Senedd gan Senedd Cymru. CC BY 2.0

Ers y 1900au cynnar, mae pobl yng Nghymru wedi tyfu'n llai crefyddol. Helpodd diwygiadau pwysig i wneud y wlad yn fwy seciwlar, yn golygu bod gan yr eglwys lai o gysylltiad gyda sut y gweinyddir y wlad a bod pob crefydd a chredo yn cael eu trin yn gyfartal. Mae rhain yn cynnwys datgysylltiad yr Eglwys ym 1920, a chreu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Y Senedd oedd llywodraeth cyntaf gwlad yn y DU i'w greu ar sail delfrydau seciwlar.

Gweithiodd llawer o ddyneiddwyr Cymreig yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed-ganrif-ar-hugain i newid y byd er gwell - yn artistiaid, awduron, addysgwyr, gwleidyddion, a mwy. Er enghraifft, ganwyd Aneurin Bevan yn Nhredegar, yn fab i löwr. Aeth ymlaen i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG), yn gwneud gofal meddygol ar gael i filiynau o bobl trwy'r DU i gyd.


## ANEURIN 'NYE' BEVAN (1897–1960)



Aneurin Bevan gan Howard Coster, 1943 © National Portrait Gallery, Llundain. CC BY-NC-ND 3.0

Ganwyd Nye Bevan i deulu glofaol dosbarth gweithiol. Teimlai ddyletswydd i helpu gwella bywydau pobl eraill, yn arbennig pobl gweithiol, ac fel Gweinidog Iechyd helpodd i greu'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol: yn darparu gofal iechyd rhad ac am ddim i bawb oedd ei angen. Dywedodd ei wraig, Jennie Lee, 'Roedd Nye yn ddyneiddiwr mawr a lleolwyd ei grefydd yng ngharu ei gyd-ddyn a cheisio'u gwasanaethu'.

## ELAINE MORGAN (1920–2013)



Elaine Morgan © Monumental Welsh Women

Roedd Elaine Morgan yn awdures a dyneiddwraig a ysbrydolodd pobl ar draws y byd gyda'i storïau a'i syniadau am hanes bodau dynol. Wedi ei geni ym Mhontypridd, enillodd Elaine ysgoloriaeth i Brifysgol Rhydychen ac aeth ymlaen i fod yn awdures enwog llyfrau ac ar gyfer y teledu. Adnabyddid hi fel storïwraig wych ddiddanodd ac ysbrydolodd. Bu Elaine yn byw am y rhan fwyaf o'i bywyd yn Aberpennar a gosodwyd cofeb ohoni yno yn 2022 i arddangos ei phwysigrwydd yng Nghymru - a garai - ac ar draws y byd.

## WYDDOCH CHI…



- **I'r angladd ddyneiddiol gyhoeddus gyntaf yn y DU (seremoni yn anrhydeddu rhywun pwysig cenedlaethol) gael ei chynnal i Rhodri Morgan yn 2017? Bu Rhodri Morgan yn Brif Weinidog Cymru.**
- **Yn ystod y 1960au a'r 1970au ffurfiwyd grwpiau dyneiddiol ar draws Cymru - gan ddenu pobl at ei gilydd i drafod syniadau, adeiladu cymdeithas a gweithio i wella'r byd.**
- **Heddiw, dywed tua hanner pobl Cymru nad oes ganddynt unrhyw grefydd ac mae Dyneiddwyr Cymru (rhan o Dyneiddwyr y DU) yn gweithio i'w cynrychioli.**

 © HUMANISTS UK 2022